**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Hormon twf dynol (somatropin) ar gyfer plant sy'n methu â thyfu

*Mae 'canllawiau arfarnu technoleg' NICE yn rhoi cyngor ar sut a phryd y dylid defnyddio cyffuriau a thriniaethau eraill yn y GIG.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd y dylid defnyddio **hormon twf dynol (somatropin)** i drin plant sy'n methu â thyfu yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Cafodd ei hysgrifennu ar gyfer plant sy'n methu â thyfu a'u teuluoedd neu eu gofalwyr, ond gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Nid yw'n disgrifio methiant i dyfu na'r triniaethau'n fanwl - dylai arbenigwr ar drin plant sy'n methu â thyfu drafod y rhain gyda chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y sefydliadau a restrir ar dudalen 4.

*Dylai arbenigwr ar drin plant sy'n methu â thyfu siarad â chi am p'un a yw hormon twf dynol (somatropin) yn addas.*

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Mae NICE yn argymell hormon twf dynol (somatropin) fel triniaeth bosibl ar gyfer rhai plant sy'n methu â thyfu (gweler isod).

### Pwy all gael hormon twf dynol (Somatropin)?

Dylai plant allu cael hormon twf dynol (somatropin) os oes un o'r canlynol yn berthnasol iddynt:

- diffyg hormon twf
- Syndrom Turner
- Syndrom Prader-Willi
- diffyg arennol cronig
- methu â thyfu yn bedair oed neu'n hŷn ac a aned yn fach o ystyried eu hoedran yn y groth
- diffyg SHOX (short stature homeobox-containing gene).

Dylai'r driniaeth barhau nes bod y plentyn yn gorffen tyfu oni bai bod twf yn araf ym mlwyddyn gyntaf y driniaeth neu nid yw'r plentyn am barhau â'r driniaeth. Dylai'r arbenigwr ystyried pwysau a thaldra yn ofalus cyn atal triniaeth mewn plant sydd â syndrom Prader-Willi.

### Pam fod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar ba mor dda y mae triniaethau yn gweithio yn ogystal â pha mor dda y maent yn gweithio mewn perthynas â'u cost i'r GIG. Mae NICE wedi argymell hormon twf dynol (somatropin) oherwydd ei fod yn cynyddu twf mewn plant sy'n methu â thyfu ac mae'n gweithio'n dda o gymharu â'i gost.

## Methiant i dyfu

Nid yw rhai plant yn tyfu fel y disgwylir ac maent yn fyr am eu hoedran. Mae'n bosibl mai diffyg protîn a elwir yn hormon twf sy'n gyfrifol am hyn. Gall hefyd ddigwydd â rhai cyflyrau eraill megis syndrom Turner, syndrom Prader-Willi a chlefyd hirdymor yr arennau, ac mewn plant oedd yn isel eu pwysau adeg eu geni a'r rheini sydd â diffyg genetig penodol (a elwir yn ddiffyg *SHOX*).

## Hormon twf dynol (somatropin)

Mae hormon twf dynol yn cynyddu twf a hefyd yn effeithio ar y modd y mae'r corff yn defnyddio protinau, brasterau a charbohydradau. Mae somatropin yn ffurf synthetig ar hormon twf dynol.

## Beth yw ystyr hyn?

Pan fydd NICE yn argymell triniaeth, rhaid i'r GIG sicrhau ei bod ar gael i'r bobl hynny y gallai eu helpu, fel arfer o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Felly, os oes plentyn yn methu â thyfu a bod arbenigwr ar drin plant sy'n methu â thyfu o'r farn mai hormon twf dynol (somatropin) yw'r driniaeth gywir iddo (gweler 'Beth y mae NICE wedi'i ddweud?' ar dudalen 2), dylai allu cael y driniaeth ar y GIG. Gweler www.nice.org.uk/AboutGuidance os credwch eich bod yn gymwys i gael y driniaeth ond nad yw ar gael.

## Rhagor o wybodaeth

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chymorth i blant sy'n methu â thyfu a'u teuluoedd neu ofalwyr. Nodwch nad yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

- Child Growth Foundation, 020 8995 0257 www.childgrowthfoundation.org
- The Pituitary Foundation, 0845 450 0375 www.pituitary.org.uk
- Cymdeithas Syndrom Prader–Willi (PWSA) y DU, 01332 365676 www.pwsa.co.uk
- Cymdeithas Gymorth Syndrom Turner (y DU), 0845 230 7520 www.tss.org.uk

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi rhagor o wybodaeth a chymorth i chi. Os ydych yn byw yng Nghymru dylech siarad â Galw Iechyd Cymru i gael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am y cyflwr a'r triniaethau, barn cleifion a gofalwyr a phrofiadau meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac yn ystyried y costau sydd ynghlwm. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/AboutGuidance*

*Mae'r daflen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau hyn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/TA188*

*Rydym yn annog y GIG a sefydliadau gwirfoddol i ddefnyddio testun o'r daflen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am fethiant i dyfu.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-84936-279-5
N2221 POD 1P May 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.